# CARDIGAN WASTEWATER TREATMENT WORKS NEWSLETTER

March 2024

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello

**As you may be aware, we're planning to invest around £20 million to fully replace Cardigan Wastewater Treatment Works (WwTW). We're writing to you to update you on the next steps of our plans.**

## Our plans

The investment will help us change the treatment process to ensure the site will work more efficiently to cope better with the influx of salt water from the tidal river. Since identifying the issue of saline intrusion at Cardigan WwTW, we have carried out a number of mitigations and investigations to scope out options to resolve this.

This involved working on the sewer network to reduce the ingress of seawater, improvements to the treatment plant to maximise the flows we treat through the works and to investigate an alternative treatment process that can help deal with the conditions in Cardigan. Some of this work has provided marginal improvement for the treatment works but we are now focussing on finding a more sustainable and long-term solution for Cardigan WwTW.

In agreement with our regulators, Natural Resources Wales (NRW), we have done this by trialling two different types of treatment at the site for a period of over 12 months. This helped us to identify a new treatment process, which has proven to be the most effective in coping with the varying levels of saltwater present. The new process will enable the works to perform more effectively and help to reduce the spills from this site.

During our feasibility work we explored other options, including a nature-based solution for Cardigan. However, this was found to be unsuitable due to the level of saline intrusion at the works, the topography of the site and land area that would be required.

## Next steps

We have now completed our investigation and feasibility study at the WwTW and are progressing our detailed design working collaboratively with our supply chain, contractors and regulators to bring forward our plans to invest at Cardigan.

The next step in this process is to apply for planning permission, which we plan on submitting to the local authority this month (March 2024).

Although the planned start date for our work at Cardigan WwTW remains 1st April 2025, we are continuing to explore opportunities to bring this date forward (subject to ecological licences and planning approval).

Our new temporary treatment process, which was installed at the end of 2023, to help the works cope better during storm conditions will remain operational and in place until our work to replace the treatment works at Cardigan is complete.

## More information

We'll write to you again when we have further updates, but in the meantime, you can stay up to date with our progress on our website **dwrcymru.com/inyourarea**. Here you can register to receive updates by email or text about Welsh Water work in your area.

## And finally...

We'd like to say **thank you** for bearing with us while we carry out this essential work.

# GWEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF ABERTEIFI
## NEWYDDLEN

Mawrth 2024

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo 'na,

**Fel y gwyddoch chi, rydyn ni'n bwriadu buddsoddi tua £20 miliwn i ddisodli Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Aberteifi yn llwyr. Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i'ch diweddaru ar y camau nesaf yn ein cynlluniau.**

### Ein cynlluniau

Bydd y buddsoddiad yn ein cynorthwyo i newid y broses drin er mwyn sicrhau bod y safle'n gweithio'n fwy effeithlon er mwyn ymdopi'n well â'r mewnlif o ddŵr hallt o'r afon Ianwol. Ers clustnodi bod dŵr hallt yn dod i mewn i GTDG Aberteifi, rydyn ni wedi cyflawni nifer o ymchwiliadau ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith i geisio datrys y broblem.

Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y rhwydwaith o garthffosydd i leihau faint o ddŵr y môr sy'n dod i mewn, gwneud gwelliannau i'r offer trin er mwyn mwyafu'r llif y gallwn ei drin yn y gweithfeydd, ac ymchwilio i broses drin wahanol sy'n gallu ymdopi â'r amodau yn Aberteifi. Mae rhai o'r mesurau yma wedi darparu rhywfaint o amddiffyniad i'r gweithfeydd, ond mae ein ffocws ar ddod o hyd i ateb mwy cynaliadwy a hirdymor ar gyfer GTDG Aberteifi.

Mewn cytundeb â'n rheoleiddwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) rydyn ni wedi gwneud hyn trwy dreialu dau fath gwahanol o driniaeth ar y safle am gyfnod o dros 12 mis. Mae'r treial yma wedi ein cynorthwyo ni i glustnodi proses drin newydd, a chafwyd taw hon yw'r broses fwyaf effeithiol wrth ymdopi â'r lefelau amrywiol o ddŵr hallt sy'n bresennol. Bydd y broses newydd yn gwneud i'r gweithfeydd weithredu'n fwy effeithiol ac yn helpu i leihau'r gollyngiadau a ryddheir o'r safle.

Yn ystod ein gwaith mesur hyfywedd, archwiliwyd opsiynau eraill, gan gynnwys ateb sy'n seiliedig ar natur ar gyfer Aberteifi. Fodd bynnag ffeindiwyd bod hyn yn anaddas oherwydd lefel yr ymdreiddiad dŵr hallt yn y gweithfeydd, topograffeg y safle a faint o dir y byddai ei angen.

### Y camau nesaf

Rydyn ni wedi cwblhau'r gwaith ymchwilio a hyfywedd yn y GTDG erbyn hyn ac rydyn ni'n bwrw ymlaen â'n dyluniad manwl gan weithio gyda'n cadwyn gyflenwi, contractwyr a rheoleiddwyr i gychwyn ein cynlluniau i fuddsoddi yn Aberteifi cyn gynted â phosibl.

Y cam nesaf yn y broses yw gwneud cais am ganiatâd cynllunio ac rydyn ni'n bwriadu cyflwyno'r cais i'r awdurdod lleol y mis yma (Mawrth 2024).

Er taw'r dyddiad dechrau disgwyliedig ar gyfer GTDG Aberteifi yw 1 Ebrill 2025 o hyd, rydyn ni'n parhau i archwilio cyfleoedd i ddechrau'r gwaith yma'n gynt (yn amodol ar drwyddedau ecolegol a chaniatâd cynllunio).

Bydd ein proses drin newydd dros dro, a osodwyd ddiwedd 2023 er mwyn helpu'r gwaith i ymdopi'n well dan amodau storm, yn parhau i weithredu, a bydd yn parhau nes bod ein gwaith i ddisodli'r gweithfeydd trin yn Aberteifi wedi ei gwblhau.

### Gwybodaeth bellach

Byddwn ni'n ysgrifennu atoch eto pan fydd rhagor o fanylion ar gael, ond yn y cyfamser, byddwn ni'n rhannu unrhyw ddatblygiadau ar ein gwefan **dwrcymru.com/yneichardal**. Yma cewch gofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf am waith Dŵr Cymru yn eich ardal trwy e-bost neu neges destun.

### Ac yn olaf...

Hoffem **ddiolch i chi** am eich amynedd wrth i ni gyflawni'r gwaith hanfodol yma.